**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (MONK STREET, Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERDDWYR DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r droetffordd sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Lôn Beili Priory hyd at ffin ddeheuol Bwyty Indiaidd Sundarbon yn Monk Street, y Fenni.

Y llwybr arall fydd mynd ar y groesfan i gerddwyr gyferbyn â Rhif 26 Monk Street a'r droetffordd sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd yr A40 Monk Street hyd at y gyffordd â Cross Street.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Medi 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol o 07:30 o'r gloch ar 24 Medi 2021 ac yn parhau hyd 17:00 o'r gloch ar 18 Rhagfyr 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnodau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (MONK STREET, ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF PEDESTRIANS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all pedestrians from proceeding on the length of the footway adjacent to the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with Beili Priory Lane to the southern boundary of the Sundarbon Indian Restaurant at Monk Street, Abergavenny.

The alternative route will be via the pedestrian crossing opposite No. 26 Monk Street and the footway adjacent to the northbound carriageway of the A40 Monk Street to the junction with Cross Street.

The Order comes into force on 24 September 2021. The temporary prohibition is expected to operate from 07:30 hours on 24 September 2021 until 17:00 hours on 18 December 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the periods specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government